**CYPE(6)-18-23 - Papur i'w nodi 7**

**Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg**
—
**Children, Young People and Education Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddPlant@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddPlant
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddChildren@senedd.wales
senedd.wales/SeneddChildren
0300 200 6565

Elinor Puzey

Y Gymdeithas Genedlaethol er Atal Creulondeb i Blant (NSPCC)

06 Mehefin 2023

**Y cysylltiad rhwng tlodi a'r defnydd o wasanaethau gofal cymdeithasol i blant yng Nghymru**

Annwyl Elinor,

Rwy'n ysgrifennu i ymateb i'ch llythyr at Gadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol yn cynnig bod y Pwyllgor yn cynnal ymchwiliad i'r cysylltiad rhwng tlodi a'r defnydd o wasanaethau gofal cymdeithasol i blant yng Nghymru. Fel y gwyddoch, anfonodd Cadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol gopi o'r ymateb a anfonodd atoch chi dyddiedig 13 Ebrill 2023.

Hoffwn dynnu'ch sylw at yr adroddiad ar wasanaethau ar gyfer plant a phobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal, a gyhoeddodd ein pwyllgor ar 24 Mai. Mae'r adroddiad yn ystyried yn fanwl y ffactorau risg yn ymwneud â rhieni sy'n ei gwneud yn fwy tebygol y bydd plentyn yn derbyn gofal - tlodi yn eu plith. Gweler o dudalen 65 ymlaen. Efallai y bydd gweddill y bennod 'Cyn gofal' o ddiddordeb i chi o ystyried y berthynas gref rhwng tlodi a chyfraddau'r plant sy'n derbyn gofal.

Cafodd ein gwaith o graffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru eleni ei lywio gan yr argyfwng costau byw. Mae'r gwaith hwn yn llai uniongyrchol berthnasol i'r berthynas rhwng tlodi a'r defnydd o ofal cymdeithasol i blant, ond efallai y bydd ein canfyddiadau'n ddiddorol serch hynny. Rydym yn ystyried diogelu a phlant sydd â phrofiad o fod mewn gofal o dudalen 59 ymlaen, a thlodi plant ar dudalennau 65-69 yn ein hadroddiad. Mae argymhelliad rhif 19 yn ymwneud â'n cynllun gweithredu tlodi plant:

> *"Rhaid i Lywodraeth Cymru, o fewn chwe mis, ddatblygu cynllun gweithredu i ddileu tlodi plant yng Nghymru. Rhaid i'r cynllun gweithredu nodi camau gweithredu clir, wedi'u costio, y gellir eu cyflawni, y gellir eu mesur ac ag amserlen*

*benodol, sydd o fewn cwmpas pwerau Llywodraeth Cymru i ddileu tlodi plant yng Nghymru."*

Gobeithio y bydd y wybodaeth hon yn ddefnyddiol i chi.  Os hoffech ragor o wybodaeth am ein gwaith, mae croeso i chi gysylltu â'n clercod (SeneddPlant@Senedd.Cymru).

Yn gywir,

Jayne Bryant AS
Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.